

---

# BWLETIN POLISI CYTÛN

## MEHEFIN 2015

---



### TAITH Y GYLLIDEB 2015 – BUDDSODDI YN Y GYMRU A GAREM

Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae Gweinidog Cyllid a Busnes Llywodraeth Cymru, Jane Hutt, wedi sefydlu a datblygu taith flynyddol ynghylch y Gyllideb ledled Cymru er mwyn ymgysylltu â'r rhai sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a thrafod y ffordd orau o gynllunio a pharatoi am yr heriau ariannol o'n blaenau. Eleni fe gynhelir cyfres o gyfarfodydd rhwng Mehefin a Medi, â staff sy'n gweithio ar gyflenwi gwasanaethau rheng flaen, i drafod gwaith paratoi'r Llywodraeth ar gyfer cyfnod pellach o wasgu ar wariant cyhoeddus ac ystyried ein blaenoriaethau buddsoddi mewn ymateb i Adolygiad o Wariant 2015.

Bydd cyfarfodydd ac ymweliadau taith y Gyllideb 2015 yn canolbwyntio'n arbennig ar sut y mae buddsoddiadau'r Llywodraeth yn cyd-fynd â nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Cynhelir cyfarfodydd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym mhob ardal fel a ganlyn:

**Dydd Iau, 18 Mehefin, Aberystwyth**

**2 Gorffennaf, Cyffordd Llandudno**

**15 Gorffennaf, Parc Cathays, Caerdydd**

**23 Gorffennaf, Penllergaer, Abertawe**

**3 Awst, y Drenewydd**

**10 Medi, Merthyr Tudful**

Mae angen i Gethin Rhys (gweler y dudalen gefn) gael gwybod **ar unwaith** os hoffech fynychu cyfarfod Aberystwyth, a 3 wythnos ymlaen llaw ar gyfer pob cyfarfod arall. Mae'r niferoedd wedi eu cyfyngu, felly nid oes gwarant y bydd pawb sy'n ceisio yn cael lle. Ond mae hwn yn gyfle i ddylanwadu'n uniongyrchol ar flaenoriaethau'r Llywodraeth, a byddai Cytûn am annog eglwysi lleol a mudiadau crefyddol eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd i ystyried mynychu un o'r cyfarfodydd hyn.



### GWARCHOD ADEILADAU RHESTREDIG A HENEBION: BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)

Mae'r [ymgyngoriad](#) ar y Bil hwn (gweler [Bwletin Polisi Mai 2015](#)) yn dod i ben ar 19eg Mehefin 2015, a mae Cytûn wrthi yn paratoi ei ymateb ar hyn o bryd. Os hoffech gyfrannu at y drafodaeth am sut orau i warchod henebion, adeiladau rhestredig ac adeiladau hanesyddol eraill (llawer ohonynt yn eglwysi ac adeiladau crefyddol eraill), yna mae angen i chi ddanfôn eich sylwadau at Gethin erbyn **diwedd dydd Mawrth 16eg Mehefin**, neu yn uniongyrchol at y llywodraeth erbyn 19eg Mehefin.

## CYFLWYNO BIL IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU)

Ar 8 Mehefin, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Y bwriad yw creu amodau cymdeithasol sy'n hyrwyddo iechyd da, gan geisio atal niwed y gellir ei osgoi. Mae'r Bil yn nodi cyfres o gynigion penodol mewn meysydd blaenoriaeth yng nghyd-destun polisi iechyd cyhoeddus, gan gynnwys:



- *Tybaco a chynhyrchion nicotin:* creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin; a gwahardd rhoi tybaco neu gynhyrchion nicotin i bobl dan 18 oed. Y mesur mwyaf dadleuol yw cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin fel sigarêts electronig mewn mannau cyhoeddus a mannau gwaith caeedig. Croesawyd hyn gan rai, ond mae'r BBC yn sôn i'r Athro Robert West o Goleg Prifysgol Llundain ddweud i'r llywodraeth gael ei chamarwain gan "a barrage of anti e-cigarette propaganda coming from public health activists with little knowledge or understanding of the evidence". Mae'r Athro West yn credu y gall e-sigarennau helpu pobl i ymatal rhag smygu.
- *Triniaethau arbennig:* Creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n darparu 'triniaethau arbennig', sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio, a gwahardd tyllu rhannau personol o'r corff i bobl o dan 16 oed.
- *Gwasanaethau fferyllol:* Sicrhau bod penderfyniadau Byrddau Iechyd yn y maes hwn yn seiliedig ar asesiadau o angen fferyllol yn eu hardaloedd.
- *Darpariaeth toiledau:* Gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i baratoi strategaethau lleol ar gyfer darparu toiledau at ddefnydd y cyhoedd, a mynediad atynt.

Nid yw cyflwyno isafswm pris uned ar gyfer alcohol wedi'i gynnwys yn y Bil, gan fod y Llywodraeth am aros canlyniad y dyfarniad Ewropeaidd ar Ddeddf Alcohol (Isafswm Priso) (yr Alban) 2012, ond bwriedir cyhoeddi Bil drafft yn ymwneud ag isafswm pris alcohol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus maes o law.

Ni fydd y Bil chwaith yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra, ond fe fydd deddfwriaeth eilaidd yn gosod safonau maeth mewn lleoliadau cyn ysgol a chartrefi gofal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bydd y Bil hwn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu cyffredinol sy'n cael ei ddatblygu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ond mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud: *The [Future Generations] Bill has been drafted in a manner which fails to include health in the common aim.... This means that there is every chance that despite two potentially impactful pieces of legislation that could set public health in Wales on a trajectory to be envied on the international stage, Wales could be left with no notable levers to make the strategic, large scale changes that are needed to address public health challenges.*

Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal ymgynghoriad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

## AELODAU NEWYDD I'R CYNULLIAD

Wedi ethol dau Aelod Ceidwadol o'r Cynulliad i wasanaethu yn San Steffan yn etholiad Mai 2015 – Byron Davies (Gŵyr) ac Antoinette Sandbach (Eddisbury) – mae dau aelod newydd wedi cymryd eu lle yn y siambr. Y ddau yw Dr Altaf Husain (De Orllewin Cymru) a Janet Haworth (Gogledd Cymru). Nid oedd angen isetholiadau gan i aelodau rhanbarthol gael eu hethol oddi ar restr, ac fe wahoddwyd yr aelod nesaf oedd ar gael gan y Ceidwadwyr ar eu rhestri rhanbarthol i lenwi'r seddi gwag.

# AMDDIFFYN ASED AU CYMUNEDOL

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar sut orau y gall cymunedau lleol sicrhau adeiladau, lleoliadau a gwasanaethau o bwys i'r gymuned ar gyfer y gymuned pan fo perygl iddynt gael eu gwerthu. Gallwch ddarllen y ddogfen ymgynghorol ar <http://gov.wales/consultations/people-and-communities/protecting-community-assets-consultation/?skip=1&lang=cy> Mae'r ddogfen yn cynnig tair ffordd bosibl o sicrhau cymorth i gymunedau dan yr amgylchiadau hyn:

1. Fframwaith wirfoddol heb ddeddfwriaeth (y llwybr a ddilynir yng Ngogledd Iwerddon)
2. Cyflwyno yng Nghymru rannau priodol Deddf Lleoliaeth 2011 gan San Steffan, sydd ar hyn o bryd yn weithredol yn Lloegr yn unig
3. Cyflwyno deddfwriaeth benodol Gymreig yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016

Y math o gamau dan ystyriaeth yw sefydlu cofrestr asedau cymunedol, a phan fo un o'r adeiladau neu leoliadau ar y rhestr honno yn dod ar werth, rhoi'r 'cynnig cyntaf' i'r gymuned geisio'i brynu (am bris y farchnad – nid oes sôn yn y ddogfen am orfodi gwerthu am lai na phris y farchnad). Golygai hynny oedi am 6 mis neu hyd yn oed mwy i alluogi'r grŵp cymunedol i chwilio am arian, cyn cynnig yr ased ar y farchnad agored. Dan rai amgylchiadau, yn hytrach na phrynu'r adeilad, gallai'r gymuned sicrhau fod y gwasanaethau sydd o bwys iddynt a leolir yn yr adeilad yn cael eu symud i leoliad arall, cyn i'r adeilad gael ei werthu ar y farchnad agored.

Fe allai'r cynigion effeithio ar eglwysi o ran prynu a gwerthu.

- ran prynu, gallai eglwysi ddymuno ymgymryd ag ased cymunedol, fel arfer mewn partneriaeth gyda mudiadau eraill.
- O ran gwerthu, mae Rhagair y Gweinidog, Lesley Griffiths, yn sôn am eglwysi fel esiampl o'r math o ased y gallai cymunedau ddymuno ei gofrestru a'i warchod. Gallai gwerthu adeiladau eglwysig, felly, fod yn broses hwy pe byddai cymunedau am wneud cais i'w prynu.

Mae un o aelod eglwysi Cytûn eisoes wedi gofyn i ni ymateb i'r ymgynghoriad hwn, sy'n cau ar 11eg Medi 2015. **Dylai unrhyw eglwys neu ddarllenyydd sydd am gynnig sylwadau i fod yn rhan o ymateb Cytûn ddanfôn y rhain at Gethin (gweler y dudalen gefn) erbyn 21ain Awst, os gwelwch yn dda.**

## Grŵp Traws Bleidiol ar Ffydd

***Duw a rhyw – Cymunedau ffydd yn mynd i'r afael â phornograffi***

*Siaradwyr gwadd: Shereen Aziz-Williams, The Henna Foundation a Karin Cooke, The Naked Truth  
Project a Porn Scars*

*Cadeirydd: Darren Millar AC*

Mercher 8 Gorffennaf 2015

12:00 – 13:15

Ystafell Briffio Cyfryngau, Adeilad y Senedd

*I archebu sedd, anfonwch ebost at Jim Stewart ar [j.stewart@eauk.org](mailto:j.stewart@eauk.org)*

# RHENTU CARTREFI YNG NGHYMRO

Cyflwynwyd [Bil Rhentu Cartrefi \(Cymru\)](#) gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror, ac fe gynhaliwyd ymgynghoriad dan arweiniad Pwyllgor y Cynulliad am Gymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, a fydd yn adrodd cyn gwyliau'r haf. Nod y Bil yw diwygio'r fframwaith gyfreithiol gymhleth bresennol ynglŷn â rhentu, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau anghydraddoldeb a thegwch yn y system bresennol, er enghraifft lle mae cyd-gontractau'n galluogi un person i derfynu tenantiaeth yr holl bartion neu lle mae pobl ifanc 16 a 17 oed yn dymuno rhentu ar yr un sail â thenantiaid dros 18 oed.

Mae'r Bil wedi'i seilio ar ddau fath o gontract sy'n ceisio adlewyrchu'r ddau brif fath o rentu: rhentu hirdymor yn y sector rhentu cymdeithasol a rhentu byrdymor yn y sector preifat yn bennaf. Dywedodd y Gweinidog hefyd y bydd y Bil yn sefydlu am y tro cyntaf fframwaith gyfreithiol ar gyfer llety â chymorth.

Mae'r cynigion yn y Bil wedi'u seilio ar waith a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith.

Cynhyrchwyd [crynodeb](#) defnyddiol o'r Bil gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad.

Mae'r gwrthbleidiau a mudiadau lletya wedi mynegi nifer o bryderon, a chafodd rhain oll sylw'r Pwyllgor. Roedd y rhain yn cynnwys a fyddai'r contractau rhent newydd yn ddigon hyblyg i addasu at amgylchiadau unigol, a'r ffaith bod y Bil yn dileu'r 'moratoriwm chwe mis' sy'n cyfyngu gallu landlordiaid yn y sector preifat i adennill meddiant yn ystod chwe mis cyntaf tenantiaeth fyrddaliol sicr. Roedd Shelter a Chyngor ar Bopeth yn credu y byddai dileu'r moratoriwm yn effeithio ar ddiogelwch deiliadaeth i bobl yn y sector rhentu preifat.

## CYMRU'N COFIO 1914-18

Mae eglwysi a chymunedau ffydd eraill wedi ymuno ag amrywiaeth o fudiadau i helpu Llywodraeth Cymru i ddathlu canmlwyddiant hynt a helynt y Rhyfel Byd Cyntaf.



Dyma ddolen i lyfryn [Rhaglen 2015](#). Mae'r llyfryn yn cynnwys manylion y digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru i goffáu'r canmlwyddiant, ac unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir y tu hwnt i Glawdd Offa os byddant yn berthnasol i Gymru. Mae hefyd yn cynnwys erthyglau gan sefydliadau partner sy'n datblygu digwyddiadau a phrosiectau coffa.

Ewch i wefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 ([www.cymruncofio.org](http://www.cymruncofio.org)) a'n cyfryngau cymdeithasol (Trydar: @cymruncofio a Gweplyfr: Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918) i gael rhagor o wybodaeth.

Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer 2016-17 ac fe gynrychiolir Cytûn a Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr) ar y Bwrdd Rhaglen. Mae gweithgareddau yn cynnwys cofio profiadau gwrthwynebwyr cydwybodol a gweithredwyr heddwch, a'r sawl a dreuliodd y rhyfel 'gartref', yn ogystal â'r rhai hynny a fu'n ymladd. Yn 2017 fe fydd yna ffocws ar y bardd Hedd Wyn, a laddwyd ym 1917. Wedi iddo farw, fe'i dyfarnwyd yn fuddugol yng nghystadleuaeth Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol, ac arweiniodd hynny at ddefod ddwys y 'Gadair Ddu'. Fe goffeir hefyd y bardd Gwyddelig, Francis Ledwidge.

Hoffwn hefyd eich hannog chi i roi gwybod inni yn Cytûn (gweler y dudalen gefn) a hefyd drwy wefan *Cymru'n Cofio 1914-1918* os ydych yn trefnu unrhyw ddigwyddiadau neu brosiectau coffa yn eich eglwys neu gymuned leol.

## CYFARFOD GYDA GWEINIDOGION LLYWODRAETH CYMRU

Mae Cytûn, yn gweithredu ar ran Cyngor Rhyng-ffydd Cymru, yn cynrychioli'r sector crefyddol ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, sy'n darparu cyfleoedd i gynrychiolwyr o rychwant y trydydd sector gyfarfod â gweinidogion y Llywodraeth i drafod materion sydd o gonsŷrn cyffredin. Yn ystod Mai a Mehefin, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart, a chyda'r Gweinidog dros Gyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

Ymhlith y materion drafodwyd yn y cyfarfod **Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** oedd:

- Diweddariad am Gomisiwn Mudiadau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru
- Pa mor gynhwysol yw'r broses ymgynghori ynghylch newidiadau i wasanaethau bws (mater yr oedd y Gweinidog wedi gofyn am wybodaeth yn ei gylch)
- Gwella chwaraeon ac ymarfer corff mewn adeg o gynni economaidd
- Trosglwyddo asedau cymunedol (gweler tudalen 3 y Bwletin hwn)
- Effaith y dirwasgiad ar fudiadau'r Trydydd Sector
- Rôl yr adran o ran cadwraeth natur a newid hinsawdd, yn enwedig yng nghydestun Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Arweiniodd yr eitem hwn at drafodaeth ddi-flewyn-ar-dafod ar faint o newid fyddai ei angen er cwrdd â heriau'r dyfodol.

Cyflwynwyd ffordd wahanol i'r trydydd sector ymgysylltu â Gweinidogion fel rhan o Gynllun y Trydydd Sector yn y cyfarfod gyda'r Gweinidog **Cyllid a Busnes y Llywodraeth**. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae rhwydweithiau'r Cyngor Partneriaeth i gyd wedi datblygu Maniffesto, a chafodd eitemau o'r Maniffestos hyn sy'n ymwneud â chyllid a materion ariannol eu cyfuno mewn cynllun gweithredu ar y cyd. Trafodwyd y cynllun newydd hwn yn y cyfarfod, ac mae yna bellach fwy o gyfleoedd i fudiadau trydydd sector a swyddogion Llywodraeth Cymru gydweithio rhwng cyfarfodydd.

Roedd y Cyfarfod Gweinidogol felly'n llai ffurfiol â mwy o gyfranogi nag o'r blaen. Y prif faterion a drafodwyd oedd:

- yr angen i fuddsoddi mewn ymyrryd yn gynnar a gwaith ataliol. Cytunai pawb â'r nod, a thrafodwyd yr anawsterau o ran gweithredu hyn ar draws y sector cyhoeddus.
- rheoli grantiau, mater sydd o ofid arbennig i fudiadau trydydd sector sy'n derbyn grantiau gan y Llywodraeth. Cytunodd pawb ar bwysigrwydd llywodraethu da yng nghydestun grantiau, a'r rôl bwysig sydd gan seilwaith y trydydd sector yn cefnogi mudiadau i gyflawni ac arddangos trefn lywodraethu gadarn.
- polisi ac ymarfer caffael. Yr wythnos ganlynol fe gyhoeddodd y Gweinidog [Ddatganiad Polisi Caffael Cymru](#) diwygiedig, yn pwysleisio defnyddio caffael yn y sector cyhoeddus i hybu busnesau a mudiadau trydydd sector yng Nghymru. Cyhoeddwyd hefyd datganoli pwerau pellach yn y maes hwn o San Steffan i Lywodraeth Cymru.
- diweddariad byr ar y grymoedd ariannol a threthu datganoledig.

Bydd y Cyngor Partneriaeth llawn yn cyfarfod ar Ddydd Llun 13eg Gorffennaf, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

Ceir mwy o fanylion am y Cyngor Partneriaeth ym [Mwletin Polisi mis Ebrill](#).

Noder mai Cadeirydd y Cyngor Partneriaeth llawn yw Lesley Griffiths, ac nid Jane Hutt, fel a ddywedir ym mwletin mis Ebrill.

# ARGYFWNG MÔR Y CANOLDIR

Mynegydd pryder ar y cyd mewn cyfarfod diweddar o Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru ynghylch y ffoaduriaid a gollodd eu bywydau ym Môr y Canoldir wrth iddynt geisio mudo o Ogledd Africa i Ewrop. Mynegodd yr aelodau eu cefnogaeth i asiantaethau llywodraethol ac asiantaethau gwirfoddol a geisiodd achub y rheini mewn perygl o fodd, ac sy'n ymdrech i ddarparu'r cymorth dyngarol priodol i'r rhai sydd wedi cyrraedd glannau cyfandir Ewrop. Er y cydnabuwyd nad yw mewnfudo'n fater sydd wedi'i ddatganoli, aeth yr aelodau ati i weithio gyda'i gilydd ac â phartneriaid allweddol eraill mewn ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn cael eu derbyn, eu parchu ac yn cael bywyd buddiol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid statudol a phartneriaid yn y Trydydd Sector i roi'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid ar waith a bydd yn ymgynghori ar Gynllun Gweithredu diwygiedig yn ddiweddarach eleni.

Mae Comisiwn yr Eglwysi am Fudwyr yn Ewrop (CCME) a Chynhadledd Eglwysi Ewrop (CEC) yn annog eglwysi i gynnal gwasanaethau coffâd ar 21 Mehefin 2015, y Sul agosaf at Ddiwrnod Rhyngwladol y Ffoaduriaid. Gellir lawrlwytho adnoddau o wefan CCME yn y [Saesneg](#) a'r [Almaeneg](#).

## CYDRADDOLDEB YNG NGHYMRU

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad am ei hamcanion cydraddoldeb rhwng 2016 a 2020, ac mae Cytûn yn cynnal Grŵp Ffocws ar y mater ar ran Cyngor Rhyng-ffydd Cymru ar **Ddydd Mawrth 14eg Gorffennaf**. Os hoffech ddod, a fydech cystal ag ymateb i [gethin@cytun.org.uk](mailto:gethin@cytun.org.uk) erbyn **Dydd Gwener 26ain Mehefin fan bellaf**. Ceir mwy o fanylion ym [Mwletin Mai 2015](#).

## ETHOLIADAU 2016 – EICH SYNIADAU

Cynhelir Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ddydd Iau 5ed Mai 2016. Ar yr un diwrnod fe gynhelir etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru, a rywbryd yn 2016-17 bydd yna refferendwm am a ddylai'r DU barhau yn aelod yn yr Undeb Ewropeaidd. Hoffai Cytûn a swyddogion eglwys a chymdeithas yr enwadau, sy'n cydweithio'n agos gyda ni, wybod pa adnoddau yr hoffech eu derbyn i'ch cynorthwyo i ddeall a rhannu'r prif faterion fydd dan sylw? Pa gymorth fydd ei angen arnoch i drefnu cyfarfod gydag ymgeiswyr yn lleol, neu ymwneud mewn ffyrdd eraill â'r etholiad? Beth fu i chi ei ddysgu o ymwneud ag Etholiad Cyffredinol 2015? Cysylltwch â Gethin Rhys (manyion isod) gyda'ch syniadau, os gwelwch yn dda.



### CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer  
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales  
58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT  
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062  
E-bost/E-mail: [gethin@cytun.org.uk](mailto:gethin@cytun.org.uk)  @CytunNew 

**Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English**

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 15fed Mehefin 2015.

Cyhoeddir y Bwletin nesaf ar 24ain Gorffennaf 2015.